CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 30ain GORFFENNAF 2019
A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL PONT YR ARW LLANFACHRAETH.

PRESENNOL.
Cyng Mrs E J Bryant (Cadeiryddes) B Rowlands (Is-Gadeirydd), Mrs M Jones, W G Roberts, I G Evans, Cyng Sirol K P Hughes, Mrs D Hughes (Cyfieithyddes) ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU. Cyng M Woodward.

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I'W ARWYDDO. Neb.

COFNODION 25ain MEHEFIN 2019 YN GYWIR. Cafwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Cyng B Rowlands eilio Cyng I G Evans.

CODI O'R COFNODION.
Cae Chwarae. Cyng B Rowlands yn dweud nad i'w yn cael ei dorri yn rheolaidd. Mae Cyngor Tref Caergybi yn dweud ei fod. Pedair sydd wedi ei wneud ond maen't yn dweud saith. Y gwaith Strimio hanner torri. Annodd iawn fydd cael un torriad ar bymtheg erbyn diwedd y tymor. Mae tystion yn dweud ei body n cyrraedd gyda'r peiriant torri a gadel heb wneud y gwaith. Mae cwynion o'r Tai Cyngor ei bod yn gyrru y lladdwr gwair (Mower) yn afreolus. Mae hyn yn codi pryder gyda plant o gwmpas. Maen't yn gwneud archwiliad ar yr offerau chwarae ac yn dweud ei bod yn iawn. Ond mae yr Archwiliad Chwarterol (Mr M Owen) yn dweud fod rhai pethau angen sylw?
Edrych a fydd yn bosib cael Swyddog o Gyngor Tref Caergybi i gyfarfod rhai Cynghorwyr Llanfachraeth ar y safle i gael datrys y problemau. Unfrydol.

Cysgodfan Bws yn Llanfachraeth. (Ger Gare) Wynnstay) Pasiwyd i gael gwydr yn y Gysgodfan nid paneli. Y Clerc i hysbysu y Cyngor Sir (Mr I Cadwaladr) Cynnig Cyng I G Evans eilio Cyng Mrs M Jones.

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.
1. Dim.

PENDERFYNIADAU.
2. Dim.

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON
3. Rheolwr Datblygu Tai. Rhandiroedd yn Llanfachraeth.
   Nid oes man wedi ei glustnodi ar hyd o bryd ond nid ydyw wedi mynd yn anghof. Derbyn pan yn digwydd.

GOHEBIAETH ARALL.
4. Un Llais Cymru.
   a. Fw: Digwyddiadau Ymgynghori – Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Derbyn dim sylw nodedig.

   b. FW: Pam Pobl.
      Senedd Pobl Hyn Cymru. Holiadur. Gadael

5. John Morris. Rheolwr Gwylio Cyflymder Cymunedol.
   Mr G O Jones yn Cysylltu a Cyng M Woodward.

6. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
   Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ynys Mon.
   Y Cyngor yn gweld nad oes angen newid y Sir trwy cael Gwynedd neu rhan o Gwynedd, i'w gadael fel ac y mae. Cynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng W G Roberts.

7. Adroddiad Archwiliad Mewnol. 2019. Y Cyngor yn llongyfarch y Clerc am yr adroddiad di fai. Cynnig Cyng I G Evans eilio unfrydol.

8. Clercod a Cynghorau Uningyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

9. Newyddion Dan Do Mon. Newyddion. Derbyn.

RHODDION.

10. Dim.

PLWYFOL.

11. Diffibrilydd. Cael mwy o fanylion erbyn y cyfarfod nesaf.

12. Anfon llythyr arall ynghylch a Pant Glas, Llanfachraeth. Rhedeg Busnes hab ganiatad Cynllunio?

13. Gofyn i Cyng Sirol K P Hughes i weld beth yw'r posibilrwydd o gael croesfan yn y pentref. Cynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng W G Roberts.

MATERION ARIANNOL.

14. RHEDEGOL. £2,442.50

15. CYNILO. £3,226.50

16. I'W TALU.
    Clerc £200.00 (2 fis) Mrs D Hughes (Cyfiethyddes) £35.00. Menter Mon (Offer Hirio) £25.00.

Derbyn y balans a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng I G Evans.

24/9/19